- Croeso pawb. Mae hi’n bleser cael siarad â chi heddiw yng nghynhadledd TarddLe 2022 sy’n digwydd ar gyfnod pwysig dros ben. Hoffwn ddiolch i Ddŵr Cymru am fy ngwahodd i heddiw, gan ymddiheuro nad ydw i yno gyda chi wyneb yn wyneb y bore yma.

- Dŵr yw un o’n hasedau naturiol mwyaf, ond mae ein sector dŵr yn wynebu sialensiau dybryd a digynsail.

- Mae Cymru, ynghyd â gweddill y byd, yn wynebu argyfwng natur a hinsawdd. Dros yr 20 mlynedd nesaf, mae Cymru'n wynebu gaeafau mwy gwlyb, hafau mwy cynnes a sych, lefelau'r môr yn codi, a digwyddiadau mwy cyson a dwys o dywydd eithafol. Mae'r angen am gyflawni dadgarboneiddiad, gwytnwch yr hinsawdd, a gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn gofyn am atebion arloesol, newid mewn ymddygiad, a buddsoddiad hirdymor yn ein seilwaith dŵr.

- Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i osod ein hymateb i argyfwng yr hinsawdd a byd natur wrth galon popeth a wnawn.

- Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb arnom ni i gyd i weithredu. Mae angen gweithredu fel ‘Tîm Cymru’ i gyflawni ar raddfa ac ar gyflymdra priodol i wireddu ein huchelgeisiau dros fyd natur a’r hinsawdd, a rhaid i ni i gyd ddeall y rôl y gallwn ei chwarae.

- Bu cydweithio’n thema allweddol trwy gydol fy archwiliad dwfn o fioamrywiaeth a gwblhawyd yn ddiweddar. Rwy’n falch fod ein hargymhellion yn llywio’r drafodaeth yn achlysur yma, ac yn gobeithio y bydd gweithdai heddiw yn dangos sut mae cydweithio llwyddiannus yn edrych.

- Clustnododd yr archwiliad dwfn themâu ac argymhellion allweddol i sicrhau cyflawniad ystyrlon y targed o 30 erbyn 30. Nod y targed yma yw amddiffyn a rheoli o leiaf 30% o’n tiroedd, dŵr croyw a’n moroedd er mwyn byd natur erbyn 2030.

- Mae hwn yn un o nifer o dargedau rhyngwladol a gaiff eu cymeradwyo yn COP15 yn ddiweddarach eleni. Mae'r targedau hyn yn bwysig, ac maen nhw'n diffinio'r 'degawd o weithredu' sydd ei angen i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer byd natur.

- Y sialens allweddol wrth gyflawni'r targed yw nad yw amddiffyniad yn ddigon ar ei ben ei hun. Mae angen sicrhau bod ein safleoedd a amddiffynnir yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn deg, eu bod mewn cyflwr da, yn gysylltiedig â'i gilydd, ac yn wydn rhag y newid yn yr hinsawdd. Bydd gweithio mewn partneriaeth ar raddfa'r dirwedd yn hanfodol i gyflawni ein huchelgeisiau, ar gyfer y safleoedd a amddiffynnir ac ar gyfer adferiad natur ar raddfa ehangach.

- Mae hi’n hanfodol ein bod ni’n archwilio beth yw’r rhwystrau a’r sialensiau i weithio mewn partneriaeth, a pha gamau y gallwn eu cymryd gyda’n gilydd er mwyn helpu i gyflawni atebion mewn ffordd fwy effeithiol ac amserol.

- Yn dilyn argymhellion yr archwiliad dwfn, byddwn ni’n datblygu set o gamau penodol y gallwn eu cymryd yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn ffordd ystyrlon. Un o’r argymhellion oedd creu fframwaith i gydnabod Ardaloedd sy’n Gosod Esiampl o ran Adferiad Byd Natur a Mesurau Cadwraeth Effeithiol eraill yn seiliedig ar Ardal sy’n cyflawni deilliannau o ran bioamrywiaeth.

- Mae’r argymhelliad hwn yn cofleidio rhai o nodau’r gynhadledd hon. Rydyn ni am sefydlu cyfres o Ardaloedd sy’n Gosod Esiampl o ran Adferiad Byd Natur. Gallai hyn fod trwy gydweithio rhwng gweithredwyr cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol, a’r rheiny’n unedig yn eu nod i adfer natur mewn ardaloedd a warchodir ac o ran y dirwedd ehangach.

- Mae’r cysylltiadau rhwng amddiffyn ein tir ac ansawdd dŵr yn cynnig digonedd o gyfleoedd ar gyfer partneriaethau cydweithredol, a fy ngobaith i yw y bydd trafodaethau heddiw yn archwilio’r rheiny’n fwy manwl.

- Bydd dull o weithredu’n seiliedig ar le yn caniatáu i ni fynd i’r afael â sialensiau colli bioamrywiaeth a dirywiad ecosystemau. Bydd hyn yn dangos hefyd sut y gellir ffrwyno’r manteision sy’n deillio o’r ecosystemau hyn i gynnal y gweithgarwch yma yn y tymor hir.

- Clustnodwyd systemau dalgylch afonydd fel ardaloedd lle mae risg uwch o golli bioamrywiaeth, ac mae'r rhain yn allweddol wrth gysylltu ecosystemau daear, dŵr croyw a morol.

- Mae angen i ni weithredu ar sail dalgylchoedd dŵr integredig, gan ganolbwyntio ar gydweithio rhwng nifer o sectorau ac atebion sy'n seiliedig ar fyd natur er mwyn llywio gwelliannau mewn ansawdd dŵr.

- Mae hynny'n golygu y dylem weithredu mewn ffordd a fydd yn cysylltu ac yn sbarduno pobl leol, busnesau, a'r sefydliadau gwirfoddol a chyhoeddus sy'n gweithio yn ein hecosystemau daearol, dŵr croyw a morol.

- Mae hi’n amlwg ei bod hi’n bwysig cael pethau’n iawn o ran gofalu am y tir sy’n darparu ein dŵr yfed. Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol yn seiliedig ar amgylchedd naturiol iach a sylfaen gadarn o asedau.

- Rhaid i ni sicrhau sector dŵr a dŵr gwastraff cadarn yng Nghymru sy’n canolbwyntio ar y cwsmeriaid a’r amgylchedd, sy’n integredig, yn gynaliadwy ac yn wydn, a hynny wrth sicrhau gwerth ar gyfer cwsmeriaid a’r amgylchedd hefyd.

- Rwy’n cydnabod, ac rwy’n siŵr eich bod chithau’n cydnabod hefyd, nad ar chwarae bach mae codi i’r her o golli bioamrywiaeth. Yn ogystal, mae’r diwydiant dŵr yn wynebu sialensiau wrth daclo gorlifoedd storm a ffosfforws yn ein hafonydd. Gall atebion sy’n seiliedig ar natur helpu gyda’r ymdrechion hyn i fynd i’r afael â’r sialensiau, ac mae hi’n bwysig ein bod ni’n cydnabod y rhyngddibyniaeth rhwng gweithredu dros fyd natur a dros yr hinsawdd.

- Mae rhan o’r dull yma o weithredu’n dod o dan fy nod i drawsnewid ein cyfres o safleoedd a amddiffynnir fel eu bod yn well, yn fwy a bod cysylltiadau mwy effeithiol rhyngddynt. Mae’r Rhaglen Mawndiroedd Cenedlaethol yn esiampl wych o weithio ar atebion sy’n seiliedig ar natur i raddfa, ac fe fuddsoddon ni dros £2 filiwn y llynedd yn unig. Mae’n cyflawni manteision lu, fel dal carbon a lliniaru llifogydd i lawr y llif wrth wrthdroi colli cynefinoedd.

- Er bod gennym uchelgeisiau hirdymor ar gyfer byd natur, mae angen i ni weithredu nawr, ac mae cydweithio'n bwysicach nac erioed. Rhaid i Dîm Cymru daclo'r risgiau niferus sy'n effeithio ar ein llynnoedd, ein hafonydd a'n nentydd, a chyflawni gwelliannau go iawn o ran ansawdd ein dyfrffyrdd.

- Dyna pam fy mod i wedi ymrwymo i fuddsoddi £3.3 miliwn yn ein Partneriaethau Natur Lleol dros y tair blynedd nesaf fel y gallwn dynnu sefydliadau, busnesau a chymunedau ynghyd i daclo blaenoriaethau lleol, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar ein dyfrffyrdd. Bydd hyn yn ategu'r £900,000 a fuddsoddwyd eleni eisoes.

- Ynghyd â'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, byddwn ni'n adeiladu ar ein buddsoddiad cyfredol o bron i £15 miliwn er mwyn atal dirywiad pellach yng nghyflwr rhywogaethau a chynefinoedd, gan gynorthwyo adferiad byd natur a gwella ein capasiti i addasu at argyfwng yr hinsawdd. Mae gwaith i sicrhau gwytnwch ariannol, ymgysylltu'r gymuned, a hyfforddiant a chynhwysiant wrth galon y cylch ariannu diweddar, er mwyn sicrhau ein bod ni'n amddiffyn ein hymdrechion i amddiffyn byd natur rhag y dyfodol.

- Y tryloywder, natur agored a hyblygrwydd yma yw'r union ateb sydd ei angen arnom ni fynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth ac amddiffyn un o'n hasedau naturiol mwyaf yng Nghymru, sef ein dŵr. Rwy'n cael fy siomi ar yr ochr orau bob tro gan faint o waith sy'n cael ei wneud i ymateb i'r argyfyngau cynyddol o ran byd natur a'r hinsawdd, a hoffwn ddymuno'n dda i chi heddiw. Diolch yn fawr.